CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2803 (Cy.242)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn-

(a) yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005 (OS 2005/3384 (Cy.268)) ("y Prif Reoliadau") a Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal mewn Swau) (Cymru) (Rhif 2) 2005 (OS 2005/3385 (Cy.269)) ("y Rheoliadau Swau");

(b) yn parhau i roi ei effaith i baragraff 2 o Erthygl 2a o Benderfyniad y Comisiwn 2005/734/EC, sy'n gosod mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o drosglwyddo ffliw adar pathogenig iawn a achosir gan firws ffliw A o'r is-deip H5N1 o adar sy'n byw yn y gwyllt i ddofednod ac adar caeth eraill, ac yn darparu ar gyfer system datgeliad cynnar mewn ardaloedd lle mae risg penodol (OJ Rhif L 274, 20.10.2005, t. 105), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/574/EC (OJ Rhif L 228, 22.8.2006, t. 24);

(c) yn rhoi ei effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2006/474/EC ynghylch mesurau i atal lledaeniad ffliw adar pathogenig iawn a achosir gan firws ffliw A o'r is-deip H5N1 i adar a gedwir mewn sŵau a mangreoedd cyrff, sefydliadau a chanolfannau a gymeradwywyd yn yr Aelod-wladwriaethau a hwnnw'n Benderfyniad sy'n diddymu Penderfyniad 2005/744/EC (OJ Rhif L 187, 8.7.2006, t. 37); ac

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2803 (W.242)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**.These Regulations-

(a) revoke and replace the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No.2) Regulations 2005 (SI 2005/3384 (W.268)) ("the Main Regulations") and the Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) (No.2) Regulations 2005 (SI 2005/3385 (W.269)) ("the Zoos Regulations");

(b) continue to give effect to paragraph 2 of Article 2a of Commission Decision 2005/734/EC laying down biosecurity measures to reduce the risk of transmission of highly pathogenic avian influenza caused by influenza A virus of subtype H5N1 from birds living in the wild to poultry and other captive birds and providing for an early detection system in areas at particular risk (OJ No L 274, 20.10.2005, p. 105), as last amended by Commission Decision 2006/574/EC (OJ No L 228, 22.8.2006, p. 24);

(c) give effect to Commission Decision 2006/474/EC concerning measures to prevent the spread of highly pathogenic avian influenza caused by influenza A virus of subtype H5N1 to birds kept in zoos and approved bodies, institutes and centres in the Member States and repealing Decision 2005/744/EC (OJ No L 187, 8.7.2006, p. 37); and

(ch) yn gweithredu darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd dofednod gael eu nodi, neu sy'n dibynnu ar eu nodi, o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau'r Gymuned ar gyfer rheoli ffliw adar ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EC (OJ Rhif L10, 14.1.2006, t.16).

**2**. Mae Rheoliadau 1 i 5 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol ynglŷn â diffiniadau, trwyddedau a hysbysiadau.

**3**. Mae rheoliad 6 yn gwahardd unrhyw berson rhag trefnu crynhoad didrwydded o ddofednod neu adar caeth eraill. Mae hefyd yn gwahardd unrhyw berson rhag dod ag adar o'r fath i grynhoad adar y mae'n gwybod neu'n amau ei fod yn un didrwydded.

**4**. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i geidwad 50 o ddofednod neu ragor ar unrhyw fangre unigol hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") o wybodaeth benodedig ynglŷn â'r dofednod hynny. Mae'r gofyniad hwn bellach yn gymwys i bob mangre, ac nid i fangreoedd masnachol yn unig fel yr oedd o dan y Prif Reoliadau. Mae rheoliad 7 hefyd yn gosod rhwymedigaeth newydd i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o newidiadau penodedig i'r wybodaeth hon.

**5**. Mae rheoliadau 8 i 13 yn ymwneud â brechu adar sw. Mae rheoliad 8 yn cynnwys gwaharddiad cyffredinol ar frechu adar sw heb awdurdod. Mae rheoliad 9 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol frechu adar sw, i'w gwneud yn ofynnol iddynt gael eu brechu neu i drwyddedu eu brechu. Mae rheoliad 11 yn nodi cyfyngiadau ar symud adar sw sydd wedi'u brechu.

**6**. Mae rheoliadau 14 i 16 yn rhoi rhwymedigaethau cyffredinol ar y rhai a rwymir gan y Rheoliadau hyn. Mae rheoliadau 17 i 19 yn ymwneud â phwerau'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn. Mae rheoliadau 20 i 22 yn ymwneud â thramgwyddau a gorfodi. Mae rheoliad 23 yn dirymu'r Prif Reoliadau a'r Rheoliadau Sŵau ond yn darparu bod y drwydded gyffredinol ar gyfer crynoadau adar a ddyroddir o dan y Prif Reoliadau yn parhau i fod yn effeithiol.

**7**. Nid oes arfarniad rheoliadol o'r effaith a fydd gan y Rheoliadau hyn wedi'i lunio oherwydd yr angen i weithredu'r mesurau y cyfeiriwyd atynt yn 1(c) ac (ch) mor gyflym â phosibl.

(d) implement provisions requiring or dependant on the identification of poultry premises under Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza and repealing Directive 92/40/EC (OJ No L10, 14.1.2006, p16).

**2**. Regulations 1 to 5 contain introductory provisions on definitions, licences and notices.

**3**. Regulation 6 prohibits any person from arranging an unlicensed gathering of poultry or other captive birds. It also prohibits any person from bringing such birds to a bird gathering which he or she knows or suspects is unlicensed.

**4**. Regulation 7 requires the keeper of 50 or more poultry on any one premises to notify the National Assembly for Wales ("the National Assembly") of specified information relating to those poultry. This requirement now applies to all premises, not just to commercial premises as was the case under the Main Regulations. Regulation 7 also imposes a new obligation to inform the National Assembly of specified changes to this information.

**5**. Regulations 8 to 13 relate to the vaccination of zoo birds. Regulation 8 contains a general prohibition on the unauthorised vaccination of zoo birds. Regulation 9 allows the National Assembly to vaccinate zoo birds, to require their vaccination or to license their vaccination. Regulation 11 sets out restrictions on the movement of vaccinated zoo birds.

**6**. Regulations 14 to 16 place general obligations on those bound by these Regulations. Regulations 17 to 19 relate to the powers of those performing a function under these Regulations. Regulations 20 to 22 relate to offences and enforcement. Regulation 23 revokes the Main Regulations and the Zoos Regulations but provides that the general licence for bird gatherings issued under the Main Regulations continues to have effect.

**7**. A regulatory appraisal of the effect that these Regulations will have has not been prepared because of the need to implement the measures referred to in paragraph 1(c) and (d) above as quickly as possible.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2803 (Cy.242)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

*Wedi'u gwneud* *18 Hydref 2006*

*Yn dod i rym* *13 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**).

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac maent yn dod i rym ar 13 Tachwedd 2006.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "aderyn caeth arall" ("*other captive bird*") yw unrhyw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofednyn ac mae'n cynnwys aderyn anwes ac unrhyw aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasus, arddangosfeydd, cystadlaethau, bridio ac i'w werthu;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan

(**1**) 1972, p.68.

(**2**) O.S. 2005/2766.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2803 (W.242)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006

*Made* *18 October 2006*

*Coming into force* *13 November 2006*

The National Assembly for Wales is designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**) in relation to the common agricultural policy of the European Community(**2**).

Exercising the powers conferred upon it by that section, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 13 November 2006.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Animal Health Act 1981(**3**);

"avian influenza" ("*ffliw adar*") means an infection of poultry or other captive birds caused by any influenza A virus of the subtypes H5 or H7 or with an intravenous pathogenicity index in six week old chickens greater than 1.2;

(**1**) 1972, c.68.

(**2**) S.I. 2005/2766.

(**3**) 1981, c 22; as amended by the Animal Health Act 2002 (c. 42), S.I. 1992/3293 and S.I. 2003/1734. Other amendments are not relevant to these Regulations.

awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'n cynnwys arolygydd milfeddygol;

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw person a benodwyd yn arolygydd o'r fath gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*"), o ran ardal, yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "brechu" ("*vaccinate*") yw trin dofednod neu adar caeth eraill â brechlyn yn erbyn ffliw adar;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw'r person sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am ddofednod neu adar caeth eraill yn unrhyw fangre;

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys-

(a) trelar, lled-drelar neu rywbeth arall a ddyluniwyd neu a addaswyd i gael ei dynnu gan gerbyd arall;

(b) rhan o unrhyw gerbyd y gellir ei datgysylltu; ac

(c) cynhwysydd neu strwythur arall a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei gario ar gerbyd;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "diheintio" ("*disinfect*") yw diheintio â diheintydd a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**1**) i'w defnyddio o dan y Gorchymyn Clefydau Dofednod(**2**);

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw'r holl adar sy'n cael eu magu neu eu cadw'n gaeth i gynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, cynhyrchu cynhyrchion masnachol eraill, i ailstocio cyflenwadau adar hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau adar hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**3**);

ystyr "ffliw adar" ("*avian influenza*") yw haint mewn dofednod neu adar caeth eraill a achosir gan unrhyw firws ffliw A o'r is-deipiau H5 neu H7 neu

(**1**) O.S. 1978/32, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/583 (Cy.49) ac O.S. 2006/1762 (Cy.184). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diffinnir Gorchymyn Clefydau Dofednod yn O.S. 1978/32 fel Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1079 (Cy.148) a Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1762 (Cy.184)).

(**3**) 1981, p. 22; fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, (p. 42), O.S. 1992/3293 ac O.S. 2003/1734. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"disinfect" ("*diheintio*") means disinfect with a disinfectant approved by the National Assembly under the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(**1**) for use under the Diseases of Poultry Order(**2**);

"inspector" ("*arolygydd*") means an inspector appointed by the National Assembly or by a local authority for the purposes of these Regulations or under the Act and, unless the context otherwise requires, includes a veterinary inspector;

"keeper" ("*ceidwad*") means the person with day to day responsibility for poultry or other captive birds at any premises;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"occupier" ("*meddiannydd*") means, in relation to any premises, the person in charge of those premises;

"other captive bird" ("*aderyn caeth arall*") means any bird kept in captivity which is not poultry and includes a pet bird and any bird kept for shows, races, exhibitions, competitions, breeding or for sale;

"poultry" ("*dofednod*") means all birds that are reared or kept in captivity for the production of meat or eggs for consumption, the production of other commercial products, for restocking supplies of game or for the purposes of any breeding programme for the production of these categories of birds;

"premises" ("*mangre*") includes any land, building or place;

"vaccinate" ("*brechu*") means treat poultry or other captive birds with vaccine against avian influenza;

"vehicle" ("*cerbyd*") includes-

(a) a trailer, semi-trailer or other thing designed or adapted to be towed by another vehicle;

(b) a detachable part of any vehicle; and

(c) a container or other structure designed or adapted to be carried on a vehicle;

(**1**) S.I. 1978/32, amended by S.I. 2005/583 (W.49) and S.I. 2006/1762 (W.184). Other amending instruments are not relevant to these Regulations.

(**2**) The Diseases of Poultry Order is defined in S.I. 1978/32 as the Diseases of Poultry (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1079 (W.148)) and the Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1762 (W.184)).

firws y mae ei fynegrif pathogenedd mewnwythiennol mewn cywion ieir chwe wythnos oed yn uwch nag 1.2;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*"), o ran unrhyw fangre, yw'r person sydd â gofal am y fangre honno;

ystyr "sw" ("*zoo*") yw naill ai-

(i) sefydliad parhaol lle mae anifeiliaid o rywogaeth wyllt yn cael eu cadw i'w harddangos i'r cyhoedd am saith niwrnod y flwyddyn neu fwy, ac eithrio syrcasau a siopau anifeiliaid anwes; neu

(ii) corff, sefydliad neu ganolfan a gymeradwywyd, fel y'i diffinnir ym mhwynt (c) Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/65 EC sy'n gosod gofynion iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu'r fasnach mewn, neu fewnforion i'r Gymuned o, anifeiliaid, semen, ofa ac embryonau nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion iechyd anifeiliaid a osodir mewn rheolau penodol y Gymuned y cyfeirir atynt yn Atodiad A(I) i Gyfarwyddeb 90/425/EEC(**1**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2004/68/EC(**2**).

"veterinary inspector" ("*arolygydd milfeddygol*") means a person appointed as such by the National Assembly for the purposes of these Regulations or under the Act;

"zoo" ("*sw*") means either-

(i) a permanent establishment where animals of wild species are kept for exhibition to the public for seven or more days a year, with the exception of circuses and pet shops; or

(ii) an approved body, institute or centre, as defined in point (c) of Article 2(1) of Council Directive 92/65 EC laying down animal health requirements governing trade in and imports into the Community of animals, semen, ova and embryos not subject to animal health requirements laid down in specific Community rules referred to in Annex A(I) to Directive 90/425/EEC(**1**), as last amended by Council Directive 2004/68/EC(**2**).

**Trwyddedau a hysbysiadau**

**3**.-(1) Rhaid i drwyddedau a hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen a chaniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw bryd.

(2) Caiff trwyddedau o dan y Rheoliadau hyn fod yn gyffredinol neu'n benodol ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r person sy'n rhoi'r trwyddedau yn credu eu bod yn angenrheidiol.

**Licences and notices**

**3**.-(1) Licences and notices under these Regulations must be in writing and may be amended, suspended or revoked in writing at any time.

(2) Licences under these Regulations may be general or specific and subject to such conditions as the person granting them considers necessary.

**Trwyddedau a roddir yn Lloegr neu yn yr Alban**

**4**. Mae trwyddedau a roddwyd yn Lloegr neu'r Alban ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn effeithiol yng Nghymru fel petaent wedi'u rhoi o dan y Rheoliadau hyn, ond caiff arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded o'r fath, yn ei gyfarwyddo i'w symud i fangre a bennir yn yr hysbysiad a'i gadw yno neu ei symud y tu allan i Gymru.

**Licences granted in England or Scotland**

**4**. Licences granted in England or Scotland for activities that could be licensed in Wales under these Regulations have effect in Wales as if they were granted under these Regulations, but an inspector acting under the direction of the National Assembly may serve a notice on any person moving any thing under the authority of such a licence, directing him or her to move it to and keep it on premises specified in the notice or move it out of Wales.

(**1**) OJ Rhif L 268, 14.9.1992, t. 54.

(**2**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 321; *gweler* y testun sydd wedi'i gywiro fel y'i nodir yn y corigendwm i'r Gyfarwyddeb a gyhoeddwyd yn OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t.128.

(**1**) OJ No L 268, 14.9.1992, p. 54.

(**2**) OJ No L 139, 30.4.2004, p. 321; *see* the corrected text as set out in the corrigendum to the Directive published in OJ No L 226, 25.6.2004, p.128.

**Dangos trwyddedau**

**5**.-(1) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded benodol a roddir o dan y Rheoliadau hyn-

(a) cadw'r drwydded neu gopi ohoni gydag ef bob amser yn ystod y symudiad trwyddedig;

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd, arolygydd milfeddygol neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, dangos y drwydded neu'r copi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni neu ohono gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

(2) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded gyffredinol a roddir o dan y Rheoliadau hyn-

(a) cario gydag ef bob amser, yn ystod y symudiad trwyddedig, nodyn traddodi sy'n cynnwys manylion-

(i) yr hyn sy'n cael ei symud (gan gynnwys faint ohono);

(ii) dyddiad y symudiad;

(iii) enw'r traddodwr;

(iv) cyfeiriad y fangre y cafodd y peth ei symud ohoni;

(v) enw'r traddodai;

(vi) cyfeiriad y gyrchfangre.

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd, arolygydd milfeddygol neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, dangos y nodyn traddodi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohono gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

**Gwahardd crynoadau adar**

**6**.-(1) Ni chaiff neb drefnu unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu grynhoad arall sy'n golygu casglu at ei gilydd ddofednod neu adar caeth eraill oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei drwyddedu i wneud hynny.

(2) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw ddofednod neu aderyn caeth arall i grynhoad o'r fath os yw'n gwybod neu'n amau nad yw'r crynhoad wedi'i drwyddedu felly.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â rhoi trwydded o dan baragraff (1) oni bai-

(a) bod asesiad risg milfeddygol wedi'i gynnal; a

(b) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni na fyddai crynhoad o'r fath na chludo adar yn ôl ac ymlaen i grynhoad o'r fath yn cynyddu'n sylweddol y risg o drosglwyddo firws ffliw adar.

**Production of licences**

**5**.-(1) A person moving anything under the authority of a specific licence granted under these Regulations must-

(a) keep the licence or a copy of it with him or her at all times during the licensed movement;

(b) on demand by an inspector, veterinary inspector or other officer of the National Assembly, produce the licence or copy and allow a copy or extract of it to be taken; and

(c) on such demand, provide his or her name and address.

(2) A person moving anything under the authority of a general licence granted under these Regulations must-

(a) keep with him or her, at all times during the licensed movement, a consignment note that contains details of-

(i) what is moved, including its quantity;

(ii) the date of the movement;

(iii) the name of the consignor;

(iv) the address of the premises from which the thing was moved;

(v) the name of the consignee;

(vi) the address of the premises to which the thing is being moved.

(b) on demand by an inspector, veterinary inspector or other officer of the National Assembly, produce the consignment note and allow a copy or extract to be taken; and

(c) on such demand, provide his or her name and address.

**Prohibition of bird gatherings**

**6**.-(1) No person may arrange any fair, market, show, exhibition or other gathering involving the collecting together of poultry or other captive birds unless the National Assembly licenses him or her to do so.

(2) No person may bring any poultry or other captive bird to such a gathering if he or she knows or suspects that the gathering is not so licensed.

(3) The National Assembly must not grant a licence under paragraph (1) unless-

(a) a veterinary risk assessment has been carried out; and

(b) the National Assembly is satisfied that such a gathering and the transit of birds to and from such a gathering would not significantly increase the risk of the transmission of avian influenza virus.

**Nodi mangreoedd dofednod**

**7.**-(1) Rhaid i berson sydd, ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn geidwad 50 neu fwy o ddofednod ar unrhyw fangre unigol hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn ysgrifen o'r canlynol mewn perthynas â phob mangre o'r fath-

(a) cyfeiriad a rhif daliad y fangre (os oes rhif arni);

(b) ei enw a'i gyfeiriad ac, os ydynt yn wahanol, enw a chyfeiriad-

(i) perchennog y dofednod; a

(ii) meddiannydd y fangre;

(c) y rhywogaeth a gedwir yn y fangre;

(ch) y system neu systemau hwsmona a ddefnyddir yn y fangre, gan gynnwys a yw'r dofednod yn cael eu cadw i gynhyrchu-

(i) cig;

(ii) wyau deor; neu

(iii) wyau i'w bwyta;

(d) nifer pob rhywogaeth dofednod a gedwir yn y fangre fel arfer;

(dd) capasiti deorol unrhyw ddeorfa;

(e) manylion unrhyw amrywiadau stocio tymhorol a allai arwain at wahaniaethau arwyddocaol yn niferoedd neu rywogaethau dofednod ar y fangre;

(f) nifer pob rhywogaeth dofednod sydd â mynediad i'r awyr agored; ac

(ff) bodolaeth unrhyw grynofa ddŵr ar y fangre neu yng nghyffiniau'r fangre a honno'n grynofa ddŵr sy'n denu adar gwyllt.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei wneud o fewn 1 mis i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson a hysbysodd y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 6(2) o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2005(**1**) neu reoliad 6(2) o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**2**) (a elwir gyda'i gilydd "yr hen Reoliadau").

(4) Rhaid i berson sy'n dod yn geidwad 50 neu fwy o ddofednod ar unrhyw fangre unigol ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn ysgrifen o fewn 1 mis iddo ddod yn geidwad o'r fath o'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1).

(5) Rhaid i berson sydd wedi rhoi hysbysiad o dan yr hen Reoliadau neu o dan y rheoliad hwn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn ysgrifen o fewn 1 mis i'r canlynol-

(**1**) O.S. 2005/2985 (Cy.219).

(**2**) O.S. 2005/3384 (Cy.268).

**Identification of poultry premises**

**7.**-(1) A person who, at the date these Regulations come into force, is the keeper of 50 or more poultry at any one premises must notify the National Assembly in writing of the following, in relation to each such premises-

(a) the address and holding number (if it has one) of the premises;

(b) his or her name and address and, if different, those of-

(i) the owner of the poultry; and

(ii) the occupier of the premises;

(c) the species kept at the premises;

(d) the husbandry system or systems in use at the premises, including whether poultry are kept for the production of-

(i) meat;

(ii) hatching eggs; or

(iii) eggs for consumption;

(e) the number of each species of poultry usually kept at the premises;

(f) the incubator capacity of any hatchery;

(g) details of any seasonal stocking variations which might result in significant differences in the numbers or species of poultry on the premises;

(h) the number of each species of poultry with access to the open air; and

(i) the presence on or in the vicinity of the premises of any body of water which attracts wild birds.

(2) A notification under paragraph (1) must be made within 1 month of the date these Regulations come into force.

(3) Paragraph (1) does not apply to any person who notified the National Assembly under regulation 6(2) of the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005(**1**) or regulation 6(2) of the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No.2) Regulations 2005(**2**) (together, "the old Regulations").

(4) A person who becomes the keeper of 50 or more poultry at any one premises after the date these Regulations come into force must notify the information referred to in paragraph (1) to the National Assembly in writing within 1 month of becoming so.

(5) A person who has made a notification under the old Regulations or under this regulation must notify the National Assembly in writing within 1 month of the following-

(**1**) S.I. 2005/2985 (W.219).

(**2**) S.I. 2005/3384 (W.268).

(a) newid i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b) neu (c); neu

(b) cynnydd neu leihad o 20% neu fwy yn y nifer y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(d) neu (f), oni fydd hynny oherwydd amrywiadau rheoli arferol.

(6) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i unrhyw berson sydd wedi hysbysu o dan yr hen Reoliadau neu o dan y rheoliad hwn, ei hysbysu-

(a) o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a hysbyswyd felly; a

(b) o unrhyw wybodaeth arall y mae ar y Cynulliad Cenedlaethol angen rhesymol amdani i gyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006(**1**).

(7) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo hysbysu o dan baragraff (6) wneud hynny o fewn 1 mis iddo gael hysbysiad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr "amrywiadau rheoli arferol" yw-

(a) gwagio cytiau dofednod neu ddeorfeydd i'w hailstocio ar unwaith; a

(b) stocio tymhorol.

**Cyfyngu ar frechu adar sw**

**8**.-(1) Ni chaiff neb frechu unrhyw aderyn sw onid yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny neu wedi'i drwyddedu i'w wneud.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r canlynol-

(a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(**2**); neu

(b) rhoi brechlyn at ddibenion ymchwil yn unol â thystysgrif prawf anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**3**).

**Brechu adar sw**

**9**.-(1) Os yw'r amod ym mharagraff (2) wedi'i fodloni, caiff y Cynulliad Cenedlaethol-

(a) brechu unrhyw adar mewn unrhyw swau y mae'n credu ei bod yn angenrheidiol eu brechu (ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i feddianwyr y swau hynny);

(**1**) O.S. 2006/1762 (Cy.184).

(**2**) O.S. 1998/463, y mae diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2005/2745.

(a) a change to the information referred to in paragraph (1)(b) or (c); or

(b) an increase or decrease of 20% or more in a number referred to in paragraph (1)(e) or (h), unless this is due to usual management fluctuations.

(6) The National Assembly may, by notice, require any person who has notified under the old Regulations or under this regulation to notify it of-

(a) any changes to the information so notified; and

(b) any other information the National Assembly reasonably requires to carry out functions under these Regulations or the Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006(**1**).

(7) A person required to notify under paragraph (6) must do so within 1 month of receiving a notice from the National Assembly.

(8) In this regulation, "usual management fluctuations" means-

(a) the emptying of poultry houses or hatcheries for immediate restocking; and

(b) seasonal stocking.

**Restriction on vaccination of zoo birds**

**8**.-(1) No person may vaccinate any zoo bird unless he or she is required or licensed to do so by the National Assembly.

(2) Paragraph (1) does not apply to-

(a) anything done under the authority of a licence granted under article 4 of the Specified Animal Pathogens Order 1998(**2**); or

(b) administration of a vaccine for research purposes in accordance with an animal test certificate granted under regulation 8 of the Veterinary Medicines Regulations 2005(**3**).

**Vaccination of zoo birds**

**9**.-(1) If the condition in paragraph (2) is fulfilled, the National Assembly may-

(a) vaccinate such birds in such zoos as it considers necessary (after giving written notice to the occupier of such zoos);

(**1**) S.I. 2006/1762 (W.184).

(**2**) S.I. 1998/463, to which there is an amendment not relevant to these Regulations.

(**3**) S.I. 2005/2745.

(b) ei gwneud yn ofynnol (drwy hysbysiad ysgrifenedig i feddiannydd unrhyw sw) i unrhyw aderyn yn y sw gael ei frechu; neu

(c) trwyddedu meddiannydd sw i frechu unrhyw aderyn yn y sw.

(2) Yr amod yw bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal asesiad risg ac yn credu bod risg y byddai ffliw adar yn cael ei drosglwyddo i adar sw neu i gategorïau o'r adar hynny.

(3) Fel rhan o'i asesiad risg, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol bwyso a mesur a yw sw-

(a) ar hynt ymfudo;

(b) yn agos at unrhyw grynofa ddŵr lle gall adar mudol ymdyrru;

(c) wedi'i leoli mewn ardal lle mae dwysedd adar mudol yn uchel.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu, mewn hysbysiad neu drwydded o dan y rheoliad hwn-

(a) nifer a rhywogaeth yr adar sydd i'w brechu;

(b) yr amodau bioddiogelwch sydd i'w bodloni yn y sw neu unrhyw ran o'r sw;

(c) amodau ynglyn â storio brechlyn a'i roi.

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y brechu'n cael ei wneud yn unol â'r cynllun brechu ataliol a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan Erthygl 5 o Benderfyniad y Comisiwn 2006/474/EC ynghylch mesurau i atal ffliw adar pathogenig iawn a achosir gan firws ffliw A o'r is-deip H5N1 rhag ymledu i adar a gedwir mewn swau a mangreoedd cyrff, sefydliadau a chanolfannau a gymeradwywyd yn yr Aelod-wladwriaethau ac yn diddymu Penderfyniad 2005/744/EC(**1**).

**Estyn y pwer i beri brechu**

**10**. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai brechu o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud drwy arfer y pŵer i frechu yn adran 16(1) o'r Ddeddf-

(a) adran 16(2) i (17)(**2**) (triniaeth ar ôl bod yn agored i heintiad);

(b) require (by written notice to the occupier of any zoo) the vaccination of any bird in the zoo; or

(c) license the occupier of a zoo to vaccinate any bird in the zoo.

(2) The condition is that the National Assembly has carried out a risk assessment and considers there is a risk that avian influenza will be transmitted to zoo birds or to categories of such birds.

(3) As part of its risk assessment, the National Assembly must consider whether a zoo is-

(a) on a migratory flyway;

(b) close to any body of water where migratory birds may gather;

(c) located in an area with a high density of migratory birds.

(4) The National Assembly must specify, in a notice or licence under this regulation-

(a) the number and species of birds to be vaccinated;

(b) biosecurity conditions to be met at the zoo or any part of the zoo;

(c) conditions relating to the storage and administration of vaccine.

(5) The National Assembly must ensure that vaccination is carried out in accordance with the preventive vaccination plan approved by the European Commission under Article 5 of Commission Decision 2006/474/EC concerning measures to prevent the spread of highly pathogenic avian influenza caused by influenza A virus of subtype H5N1 to birds kept in zoos and approved bodies, institutes and centres in the Member States and repealing Decision 2005/744/EC(**1**).

**Extension of the power to cause vaccination**

**10**. The following provisions of the Act apply as if vaccination under these Regulations was carried out in exercise of the power to vaccinate in section 16(1) of the Act-

(a) section 16(2) to (17)(**2**) (treatment after exposure to infection);

(**1**) OJ Rhif L187, 8.7.2006, t. 37. Mae copïau o' gynllun brechu ataliol y D.U. ar gael oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Yr Is-adran Atal a Rheoli Clefydau Ecsotig, 1A, Page Street, Llundain SW1P 4PQ ac yn http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/notifiable/pdf/euuk-zooplan.pdf.

(**2**) Diwygiwyd adran 16 o Ddeddf 1981 gan adran 7 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p. 42).

(**1**) OJ No. L187, 8.7.2006, p. 37. Copies of the UK preventive vaccination plan are available from the Department for Environment, Food and Rural Affairs, Exotic Disease Prevention and Control Division, 1A, Page Street, London SW1P 4PQ and at http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/notifiable/pdf/euuk-zooplan.pdf.

(**2**) Section 16 of the 1981 Act was amended by section 7 of the Animal Health Act 2002 (c. 42).

(b) adran 16A(**1**) (cigydda anifeiliaid a frechwyd);

(c) adran 62A(**2**) (cigydda: pwer mynediad).

**Cyfyngiadau ynglŷn ag adar sw**

**11**.-(1) Ni chaiff neb symud unrhyw aderyn sw a frechwyd onid yw wedi'i drwyddedu i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd drwyddedu symudiad adar sw a frechwyd i'r mannau canlynol yn unig-

(a) i sw yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu

(b) yn uniongyrchol i drydedd wlad.

(3) Rhaid i arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd beidio â thrwyddedu symudiad i Aelod-wladwriaeth arall nac i drydedd wlad oni fydd ei awdurdod cymwys wedi awdurdodi'r symudiad.

(4) Rhaid i arolygydd oruchwylio unrhyw symudiad a drwyddedir o dan baragraff (2) tra bo'r aderyn yng Nghymru.

(5) Ni chaiff neb ollwng unrhyw aderyn sw a frechwyd i'r gwyllt onid yw wedi'i drwyddedu i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol.

(6) Ni chaiff neb gyflenwi na gwerthu, ar gyfer ei fwyta gan bobl, gynnyrch o aderyn sw a frechwyd.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod cymwys" -

(a) o ran Aelod-wladwriaeth, yw'r awdurdod yn yr Aelod-wladwriaeth honno a awdurdodwyd i gyflawni gwiriadau ffisegol neu ffurfioldebau gweinyddol yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli ffliw adar a diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC(**3**); a

(b) o ran trydydd gwledydd, yw'r awdurdod yn y drydedd wlad honno sydd wedi'i awdurdodi i reoleiddio'r broses o fewnforio adar sw.

(**1**) Mewnosodwyd adran 16A o Ddeddf 1981 gan adran 5 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002. Fe'i hestynnwyd i fod yn gymwys i ffliw adar gan O.S. 2003/1734.

(**2**) Mewnosodwyd adran 62A o Ddeddf 1981 gan adran 8 of Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002.

(**3**) OJ Rhif L10, 14.1.2006, t. 16.

(b) section 16A(**1**) (slaughter of vaccinated animals);

(c) section 62A(**2**) (slaughter: power of entry).

**Restrictions relating to vaccinated zoo birds**

**11**.-(1) No person may move any vaccinated zoo bird unless he or she is licensed to do so by a veterinary inspector or by an inspector acting under the direction of a veterinary inspector.

(2) A veterinary inspector or inspector acting under his or her direction may only license the movement of vaccinated zoo birds-

(a) to a zoo in the United Kingdom or in another member State; or

(b) directly to a third country.

(3) A veterinary inspector or inspector acting under his or her direction must not license a movement to another member State or to a third country unless its competent authority has authorised the movement.

(4) An inspector must supervise any movement licensed under paragraph (2) while the bird is in Wales.

(5) No person may release any vaccinated zoo bird into the wild unless he or she is licensed to do so by a veterinary inspector.

(6) No person may supply or sell, for human consumption, a product from a vaccinated zoo bird.

(7) In this regulation, "competent authority" means-

(a) in relation to a member State, the authority in that member State authorised to carry out physical checks or administrative formalities in accordance with Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza and repealing Directive 92/40/EEC(**3**); and

(b) in relation to third countries, the authority in that third country authorised to regulate the importation of zoo birds.

(**1**) Section 16A of the 1981 Act was inserted by section 5 of the Animal Health Act 2002. It was extended to apply to avian influenza by S.I. 2003/1734.

(**2**) Section 62A of the 1981 Act was inserted by section 8 of the Animal Health Act 2002.

(**3**) OJ No. L10, 14.1.2006, p. 16.

**Gwyliadwriaethu mewn sŵau**

**12**. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod unrhyw wyliadwriaethu am ffliw adar y mae'n credu ei fod yn angenrheidiol i gyfyngu ar ledaeniad ffliw adar yn cael ei wneud mewn unrhyw sw lle mae adar wedi'u brechu o dan y Rheoliadau hyn.

**Methu â brechu adar**

**13**. Rhaid i unrhyw berson sy'n gwybod neu sy'n amau bod unrhyw aderyn heb ei frechu yn unol â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol hysbysu ar unwaith y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr ardal lle mae'r aderyn hwnnw.

**Dyletswyddau cyffredinol ynglŷn â gweithredu'r Rheoliadau hyn**

**14**.-(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo roi cymorth rhesymol neu wybodaeth resymol i berson sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn wneud hynny'n ddi-oed, onid oes ganddo achos rhesymol dros beidio â'i wneud.

(2) Ni chaiff neb ddifwyno, difodi na dileu unrhyw farc a ddodwyd gan arolygydd o dan reoliad 18(1).

(3) Ni chaiff neb roi gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i'r costau a dynnir gan unrhyw berson wrth gymryd y camau sy'n ofynnol, neu drwy beidio â chymryd camau a waherddir, o dan y Rheoliadau hyn gael eu talu gan y person hwnnw oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo fel arall mewn ysgrifen.

**Dangos cofnodion**

**15**.-(1) Rhaid i berson, y mae person sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddangos cofnod, wneud hynny'n ddi-oed.

(2) Ar ôl dangos y cofnod, caiff y person sy'n cyflawni'r swyddogaeth-

- (a) copïo'r cofnod, ar ba ffurf bynnag y mae'n cael ei gadw;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gofnod cyfrifiadurol gael ei ddarparu ar ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; ac
- (c) mynd ag unrhyw gofnod oddi yno a'i gadw hyd nes y bydd wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

**Surveillance at zoos**

**12**. The National Assembly must ensure that such surveillance for avian influenza as it considers necessary to limit the spread of avian influenza is carried out at any zoo where birds have been vaccinated under these Regulations.

**Failure to vaccinate birds**

**13**. Any person who knows or suspects that any bird has not been vaccinated as required by the National Assembly must immediately notify the Divisional Veterinary Manager appointed by the National Assembly for the area in which that bird is located.

**General duties relating to execution of these Regulations**

**14**.-(1) Any person required to give reasonable assistance or information to a person performing a function under these Regulations must, unless he or she has reasonable cause, do so without delay.

(2) No person may deface, obscure or remove any mark applied by an inspector under regulation 18(1).

(3) No person may provide information which he or she knows to be false or misleading to a person performing a function under these Regulations.

(4) The costs incurred by any person in taking action required, or in refraining from taking action prohibited, under these Regulations must be met by that person unless the National Assembly directs otherwise in writing.

**Production of records**

**15**.-(1) A person required to produce a record by a person performing a function under these Regulations must do so without delay.

(2) On production of the record, the person performing the function may-

- (a) copy the record, in whatever form it is held;
- (b) require any computer record to be produced in a form which can be taken away; and
- (c) take any record away and retain it until he or she has carried out his or her functions under these Regulations.

**Newid ym meddiannaeth mangre o dan gyfyngiad**

**16**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad yw ceidwad unrhyw ddofednyn neu aderyn caeth arall yn gallu ei symud o fangre adeg terfynu ei hawl i'w meddiannu oherwydd cyfyngiad ar symud a osodir o dan y Rheoliadau hyn ac mae'n parhau i fod yn gymwys am saith niwrnod ar ôl i unrhyw gyfyngiad o'r fath gael ei godi.

(2) Rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre ar ôl y terfyniad hwnnw-

(a) rhoi unrhyw gyfleusterau, ar gyfer bwydo, tendio neu ddefnyddio'r dofednyn neu'r aderyn caeth arall mewn ffordd arall (gan gynnwys ei werthu) y bydd ar y ceidwad angen rhesymol amdanynt; a

(b) caniatáu i'r ceidwad hwnnw ac unrhyw berson a awdurdodir ganddo gael mynd i mewn i'r fangre ar adegau rhesymol i fwydo, tendio neu ddefnyddio'r dofednyn neu'r aderyn caeth arall mewn ffordd wahanol.

(3) Os nad yw'r ceidwad yn gallu, neu os yw'n anfodlon bwydo neu dendio'r dofednyn neu'r aderyn caeth arall, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannau'r fangre gymryd y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y dofednyn neu'r aderyn hwnnw'n cael ei fwydo a'i dendio'n iawn.

(4) Mae ceidwad y dofednyn neu'r aderyn caeth arall yn atebol i dalu'r costau rhesymol a dynnir o dan y rheoliad hwn gan unrhyw berson sy'n ei fwydo neu'n ei dendio, neu'n darparu cyfleusterau ar gyfer ei fwydo, ei dendio neu ei ddefnyddio fel arall.

**Change of occupation of premises under restriction**

**16**.-(1) This regulation applies if the keeper of any poultry or other captive bird is unable to move it from premises on the termination of his or her right of occupation because of a movement restriction imposed under these Regulations and continues to apply for seven days after any such restriction has been removed.

(2) The person entitled to occupation of the premises following that termination must-

(a) provide such facilities for feeding, tending or otherwise using the poultry or other captive bird (including selling it) as the keeper may reasonably require; and

(b) allow entry to the premises to that keeper and any person authorised by him or her at reasonable times for feeding, tending or otherwise using the poultry or other captive bird.

(3) If the keeper is unable or unwilling to feed or tend the poultry or other captive bird, the person entitled to occupation of the premises must take such steps as are necessary to ensure it is properly fed and tended.

(4) The keeper of the poultry or other captive bird is liable to pay the reasonable costs incurred under this regulation by any person feeding or tending it, or providing facilities for feeding, tending or otherwise using it.

**Datgymhwyso darpariaethau i berson sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn**

**17**. Ni fydd darpariaethau yn y Rheoliadau hyn sy'n gwahardd symud neu ddefnyddio unrhyw beth neu'n cyfyngu ar ei symud neu ei ddefnyddio yn gymwys i'r canlynol wrth iddynt gyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn-

(a) y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) arolygydd;

(c) unrhyw berson arall a awdurdodir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan yr awdurdod lleol i gyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn.

**Disapplication of provisions to a person performing a function under these Regulations**

**17**. Provisions in these Regulations which prohibit or restrict the movement or use of any thing do not apply to the following in their performance of any function under these Regulations-

(a) the National Assembly;

(b) an inspector;

(c) any other person authorised by the National Assembly or by the local authority to perform a function under these Regulations.

**Pwerau arolygwyr**

**18**.-(1) Caiff arolygydd sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn-

(a) marcio unrhyw aderyn neu unrhyw beth arall at ddibenion ei adnabod; a

(b) ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, bod y person sydd â gofal unrhyw gerbyd neu gyfarpar yn ei lanhau a'i ddiheintio.

**Powers of inspectors**

**18**.-(1) An inspector performing a function under these Regulations may-

(a) mark any bird or other thing for identification purposes; and

(b) require, by notice, the person in charge of any vehicle or equipment to cleanse and disinfect it.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd, pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn-

(a) glanhau a diheintio unrhyw ran o fangre neu unrhyw beth yn y fangre honno;

(b) ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, bod meddiannydd unrhyw fangre yn glanhau a diheintio unrhyw ran o fangre neu unrhyw beth yn y fangre honno;

(c) ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, bod meddiannydd unrhyw fangre neu geidwad unrhyw ddofednyn neu aderyn caeth arall-

(i) yn cadw neu'n ynysu unrhyw ddofednyn, aderyn caeth arall neu anifail mewn lle penodedig;

(ii) yn gwahanu unrhyw ddofednyn, aderyn caeth arall neu anifail oddi wrth unrhyw anifail arall neu aderyn arall.

(3) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf-

(a) adran 63 (pwerau cyffredinol arolygwyr);

(b) adran 64 (pwerau arolygwyr o ran dofednod);

(c) adran 64A(**1**) (pwerau arolygwyr ynglŷn â rhwymedigaethau Cymunedol), ac

(ch) adran 65(1) i (3) (pŵer i ddal gafael ar lestri ac awyrennau).

**Pwerau arolygwyr os ceir diffyg**

**19**.-(1) Os bydd unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn neu oddi tanynt, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y byddai'r gofyniad yn cael ei fodloni, a'u cymryd ar draul y person hwnnw.

(2) Mae pwerau arolygydd o dan baragraff (1) yn cynnwys pwerau-

(a) i'w gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i unrhyw berson gymryd neu beidio â chymryd camau penodedig mewn perthynas ag unrhyw le, anifail, aderyn, cerbyd, neu unrhyw beth arall; a

(b) i gymryd unrhyw beth i'w feddiant a dal ei afael arno.

(**1**) Mewnosodwyd adran 64A o Ddeddf 1981 gan Reoliadau Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (Diwygio) 1992 (O.S. 1992/3293), rheoliad 2.

(2) A veterinary inspector or an inspector acting under his or her direction may, when performing functions under these Regulations-

(a) cleanse and disinfect any part of premises or any thing on those premises;

(b) require, by notice, the occupier of any premises to cleanse and disinfect any part of those premises or any thing on those premises;

(c) require, by notice, the occupier of any premises or the keeper of any poultry or other captive bird-

(i) to keep or isolate any poultry, other captive bird or animal in a specified place;

(ii) to separate any poultry, other captive bird or animal from any other animal or bird.

(3) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act-

(a) section 63 (general powers of inspectors);

(b) section 64 (powers of inspectors as to poultry);

(c) section 64A(**1**) (powers of inspectors relating to Community obligations), and

(d) section 65(1) to (3) (power to detain vessels and aircraft).

**Powers of inspectors in case of default**

**19**.-(1) If any person fails to comply with a requirement in or under these Regulations, an inspector may take such steps he or she considers necessary to ensure the requirement is met, at the expense of that person.

(2) An inspector's powers under paragraph (1) include powers-

(a) to require, by notice, any person to take or refrain from specified action in respect of any place, animal, bird, vehicle, or other thing; and

(b) to seize and detain any thing.

(**1**) Section 64A of the 1981 Act was inserted by the Animal Health Act 1981 (Amendment) Regulations 1992 (S.I. 1992/3293), regulation 2.

**Tramgwyddau**

**20**.-(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel petai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf-

(a) adrannau 66 a 66A(**1**) (gwrthod a rhwystro);

(b) adran 67 (dyroddi trwyddedau anwir etc.);

(c) adran 68 (dyroddi trwyddedau sy'n wag etc.);

(ch) adran 71 (tramgwyddau eraill o ran trwyddedau);

(d) adran 71A(**2**) (erlyniadau: terfyn amser);

(dd) adran 73 (tramgwyddau cyffredinol);

(e) adran 77 (arian y gellir ei adennill yn ddiannod); ac

(f) adran 79(1) i (4) (tystiolaeth a gweithdrefn).

(2) Mae adran 69 o'r Ddeddf (sicrhau trwyddedau drwy dwyll) yn gymwys fel pe bai trwyddedau a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn wedi'u rhoi o dan Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf.

(3) Mae adran 75 o'r Ddeddf(**3**) (cosbau am dramgwyddau ynadol penodol) yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac eithrio bod rhaid i unrhyw gyfnod o garchar ar gollfarn ddiannod beidio â bod yn hwy na thri mis.

**Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol**

**21**.-(1) Os dangosir bod tramgwydd a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol-

(a) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog; neu

(b) i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran,

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw yn un o gyfarwyddwyr y corff.

(3) Ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath.

(**1**) Mewnosodwyd adran 66A o Ddeddf 1981 gan adran 8(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42).

(**2**) Mewnosodwyd adran 71A o Ddeddf 1981 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 14.

(**3**) Mewnosodwyd adran 75 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p. 42), adran 13.

**Offences**

**20**.-(1) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act-

(a) sections 66 and 66A(**1**) (refusal and obstruction);

(b) section 67 (issue of false licences etc.);

(c) section 68 (issue of licences etc. in blank);

(d) section 71 (other offences as to licences);

(e) section 71A(**2**) (prosecutions: time limit);

(f) section 73 (general offences);

(g) section 77 (money recoverable summarily); and

(h) section 79(1) to (4) (evidence and procedure).

(2) Section 69 of the Act (falsely obtaining licences etc) applies as if licences granted under these Regulations were granted under an Order made under the Act.

(3) Section 75 of the Act(**3**) (penalties for certain summary offences) applies as if these Regulations were an Order made under the Act except that any term of imprisonment on summary conviction must not exceed three months.

**Offences by bodies corporate**

**21**.-(1) If an offence committed by a body corporate is shown-

(a) to have been committed with the consent or connivance of an officer; or

(b) to be attributable to any neglect on his or her part,

the officer as well as the body corporate is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with his or her functions of management as if he or she were a director of the body.

(3) "Officer", in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity.

(**1**) Section 66A of the 1981 Act was inserted by section 8(2) of the Animal Health Act 2002 (c.42).

(**2**) Section 71A of the 1981 Act was inserted by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 14.

(**3**) Section 75 was amended by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 13.

**Gorfodi**

**22**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Rheoliadau hyn gael eu gorfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn perthynas ag achos penodol, y byddai'n gorfodi'r Rheoliadau hyn yn lle'r awdurdod lleol.

**Dirymiadau ac arbedion**

**23**.-(1) Mae Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**1**) wedi'u dirymu.

(2) Mae Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal mewn Sŵau) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**2**) wedi'u dirymu.

(3) Mae'r drwydded gyffredinol ar gyfer crynoadau adar a ddyroddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 5 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) (Rhif 2) 2005 yn parhau mewn grym fel petai wedi'i rhoi o dan reoliad 6(1) o'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

18 Hydref 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Enforcement**

**22**.-(1) Subject to paragraph (2), these Regulations must be enforced by the local authority.

(2) The National Assembly may direct, in relation to cases of a particular description or to a particular case, that it will enforce these Regulations instead of the local authority.

**Revocations and savings**

**23**.-(1) The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No.2) Regulations 2005(**1**) are revoked.

(2) The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) (No.2) Regulations 2005(**2**) are revoked.

(3) The general licence for bird gatherings issued by the National Assembly under regulation 5 of the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No.2) Regulations 2005 remains in force as if it were granted under regulation 6(1) of these Regulations.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**)

18 October 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) OS 2005/3384 (Cy.268).

(**2**) OS 2005/3385 (Cy.269).

(**3**) 1998, p.38.

(**1**) SI 2005/3384 (W.268).

(**2**) SI 2005/3385 (W.269).

(**3**) 1998, c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2006 Rhif 2803 (Cy.242)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 No. 2803 (W.242)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W413/10/06 ON